



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio Datblygu: Adroddiad Blynyddol ar gyfer Gweinidogion Cymru 2017–18

1 Gorffennaf 2018 Adolygiad Rhif 4

Cyfoeth Naturiol Cymru Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygu ar gyfer Llywodraeth Cymru: Asesiad Perfformiad Ymgynghorai Arbenigol Hanes fersiynau o'r ddogfen		
Fersiwn o'r ddogfen	Dyddiad cyhoeddi	Statws
1.0	02/04/2018	Dogfen ddata ddrafft wedi'i pharatoi gan y gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a thimau Cynllunio Datblygu Gweithredol
2.0	18/06/2018	Dogfen ddrafft wedi'i hadolygu gan Fwrdd Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru
3.0	25/06/2018	Cymeradwyaeth o'r ddogfen derfynol gan Fwrdd Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru
4.0	29/06/2018	Cyhoeddi'r adroddiad

Cyswllt ar gyfer ymholiadau ac adborth

Tîm Tystiolaeth, Cynllunio a Thrwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru yw prif berchennog y ddogfen. E-bost. EPP.Planning@naturalresourceswales.gov.uk

Crynodeb Gweithredol

Ein gweledigaeth: Balch o arwain y ffordd i ddyfodol gwell i Gymru drwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae'r system cynllunio defnydd tir yn fecanwaith cyflawni strategol ar gyfer cyflawni gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru o ran rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai arbenigol yn y broses rheoli datblygu. Mae hyn yn golygu y dylai ymgeiswyr ac awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio gysylltu â ni ynghylch cynlluniau arfaethedig sy'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf lle yr ydym yn cael ein nodi fel ymgynghorai arbenigol. Pan ymgynghorir â ni, mae'n ofynnol i ni roi ateb sylweddol o fewn yr amserlenni a bennwyd.

Fel ymgynghorai arbenigol, mae'n ofynnol hefyd i ni gyflwyno Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru, sy'n amlinellu ein perfformiad o ran rhoi ymateb o sylwedd o fewn amserlenni statudol neu amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cynrychioli ein hail adroddiad i Weinidogion Cymru ac mae'n amlinellu ein perfformiad ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

O ran y cyfnod adrodd hwn, gwnaethom dderbyn 6,556 o ymgynghoriadau cynllunio a chyflwyno cyfanswm o 6,775 ymateb o sylwedd, a chyflwynwyd 97% o'r rhain o fewn yr amserlenni a bennwyd.

Cynnwys

Adran 1.0 Cyflwyniad	6
1.1 Ein Gwasanaeth Cynllunio Datblygu	6
Adran 2.0 Materion Allweddol y Flwyddyn Adrodd 2017/18	8
2.1 Materion allweddol	8
2.2 Ystyriaethau o ran adrodd	8
Adran 3.0 Ein Hasesiad o Berfformiad	9
3.1 Cyd-destun	9
3.2 Trosolwg o berfformiad	9
3.3 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)	9
3.3.1 Trosolwg o berfformiad	9
3.3.2 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriad cyn ymgeisio	11
3.3.3 Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau cyn ymgeisio a dderbyniwyd	11
3.3.4 Cyfanswm nifer yr ymatebion a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio	11
3.3.5 Amserlenni ar gyfer rhoi ymateb i ymgynghoriad cyn ymgeisio	11
3.3.6 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu hwnt i'r 28 diwrnod neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno	11
3.3.7 Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion y tu hwnt i gyfnod amser a bennwyd neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno	12
3.4 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol cyn rhoi caniatâd cynllunio	12

3.4.1 Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd	12
3.4.2 Cyfanswm nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd	12
3.4.3 Pryd cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd i'r awdurdodau cynllunio lleol	13
3.4.4 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu hwnt i'r cyfnod amser a bennwyd neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno	13
3.4.5 Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion y tu hwnt i gyfnod amser a bennwyd neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno	13
3.5 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016	14
3.5.1 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac ymgynghoriadau gan Weinidogion Cymru cyn rhoi caniatâd cynllunio	14
3.5.2 Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd	14
3.5.3 Cyfanswm nifer yr ymatebion a gyflwynwyd	14
3.5.4 Pryd darparwyd yr ymateb i'r ymgynghorydd	14
3.5.5 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu hwnt i'r cyfnod amser a bennwyd neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno. A chrynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion y tu hwnt i gyfnod amser	15
Adran 4.0 Myfyrdod	16
4.1 Arolwg cwsmeriaid	16
4.2 Prosiect Gwella ar y Cyd	16
4.3 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10)	18

Ffigyrau

Ffigwr 1 Perfformiad Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru	10
Ffigwr 2 Pryd darparwyd yr ymateb	11
Ffigwr 3 Pryd darparwyd yr ymateb	13
Ffigwr 4 Pryd darparwyd yr ymateb	15
Ffigwr 5 Pryd darparwyd yr ymateb	15

Tablau

Tabl 1 Crynodeb o'r rhesymau	12
Tabl 2 Crynodeb o'r rhesymau	13

Atodiadau

Atodiad 1 Tabl A1 Categorïau o'r rhesymau dros ymateb y tu hwnt i amserlenni a bennwyd	19
--	----

Adran 1.0 Cyflwyniad

1.0 Ein Gwasanaeth Cynllunio Datblygu

Mae'r system cynllunio defnydd tir yn fecanwaith cyflawni strategol ar gyfer cyflawni gweledigaeth, amcanion a blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Rydym yn ymgynghorai arbenigol statudol o fewn y system gynllunio, yn ystod y broses o lunio cynllun datblygu, ac yn ystod y broses o wneud cais cynllunio. Ein prif swyddogaeth yw rhoi cyngor ynglŷn â sut y dylai polisïau cynllunio a chynigion datblygu amddiffyn a gwella'r amgylchedd a chaniatáu i'n hadnoddau naturiol gael eu cynnal, eu gwella, a'u defnyddio'n gynaliadwy.

Fel ymgynghorai arbenigol, mae'n ofynnol i ni gyflwyno Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru erbyn 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi gwybodaeth am ein perfformiad o ran darparu ymateb o sylwedd i'r holl ymgynghoriadau cais cynllunio o fewn yr amserlenni statudol a'r amserlenni a bennwyd, ac ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

Mae ein gofynion adrodd wedi'u hamlinellu yn:

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012¹
- Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016²

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y mesurau canlynol ar gyfer ymgynghoriad cyn ymgeisio ac ymgynghoriadau cyn ymgeisio awdurdodau cynllunio lleol:

- (a) Nifer yr adegau pan yr ymgynghorwyd â ni
- (b) Nifer yr adegau pan ddarparwyd ymateb o sylwedd
- (c) Pryd darparwyd yr ymateb o sylwedd
- (d) Nifer yr achlysuron pan wnaethom roi ymateb o sylwedd y tu hwnt i'r cyfnod a bennwyd neu y cytunwyd arno fel arall
- (e) Crynodeb o'r rhesymau dros beidio ymateb o fewn cyfnod amser a bennwyd

Mae ein hasesiad blynyddol o'n perfformiad yn erbyn y dangosyddion a nodwyd uchod yn Adran 3.

Ymgynghorir â ni hefyd am gyngor ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer cynlluniau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf yr ydym yn ymgynghorai arbenigol ar eu cyfer o dan y Gorchymyn Rheoli Datblygu uchod. Er enghraifft, ymgynghorir â ni ynghylch cynlluniau a allai effeithio ar dirweddau dynodedig neu rywogaethau a warchodir yn statudol. Mae hyn

¹ O.S. Rhif 801 (Cy.10). Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd yn 2015 a 2016).

² O.S. Rhif 55 (Cy.25). Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

wedi'i adlewyrchu yn ein Rhestr Wirio Blaenoriaethu Rheoli Datblygu,³ sy'n nodi pryd yr hoffem i awdurdodau cynllunio ac ymgeiswyr ymgynghori â ni.

³ [Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymgynghoriadau Cynllunio \(Mawrth 2015\) \(Rhestr Wirio Blaenoriaethu Rheoli Datblygu\)](#)

Adran 2.0 Materion Allweddol y Flwyddyn Adrodd 2017/18

2.1 Materion allweddol

2.1.1 Gwasanaeth Cyngor Dewisol

Rydym yn gwbl ymwybodol o'r manteision o ymgysylltu'n gynnar â datblygwyr er mwyn nodi a rhoi sylw i ystyriaethau amgylcheddol cyn gynted â phosib, ac mae hyn yn ei dro'n helpu i osgoi oedi costfawr i benderfyniadau ac i sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell. Rydym hefyd yn derbyn ceisiadau rheolaidd am gyngor sydd y tu hwnt i'n dyletswyddau statudol.

Ym mis Ebrill 2017, gwnaethom lansio ein Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Dewisol, sy'n codi tâl ar gyfer rhai mathau o gyngor. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cyngor ynghylch nifer cyfyngedig o bynciau ac fe'i cynigir ar sail wirfoddol.

Rydym wedi creu canllaw sy'n esbonio'n fanylach pa wasanaethau y gallwch wneud cais amdanynt gennym ni, yr hyn a gynigir am ddim, a ble mae'r taliadau yn berthnasol. Mae hefyd yn esbonio sut y gellir cyflwyno cais i ni am unrhyw un o'r gwasanaethau a gynigir.

Ar hyn o bryd, mae ein Gwasanaeth Cyngor Dewisol wedi'i gyfyngu i gyngor ynghylch y pynciau a mathau datblygu canlynol:

- Diogelu dŵr daear
- Halogi tir
- Asesiadau o ganlyniadau llifogydd
- Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol
- Prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol
- Datblygiadau morol (o fis Ebrill 2018)

Rydym yn bwriadu ehangu'r gwasanaeth i feysydd eraill o gyngor y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbenigo ynddynt.

2.2 Ystyriaethau o ran adrodd

Mae'r wybodaeth i'w chynnwys mewn Adroddiad Blynyddol wedi'i hamlinellu yn y Gorchymyn Rheoli Datblygu perthnasol. Fodd bynnag, ymgynghorir â ni hefyd am ein cyngor ynghylch materion nad ydynt wedi'u rhestru yn y Gorchymynion Rheoli Datblygu. Nid ydym yn cofnodi'r rhain ar wahân. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn, felly, yn cynnig data am yr holl ymgynghoriadau ar reoli datblygu a dderbynniwyd, ni waeth p'un a ydynt yn bodloni'r meini prawf lle rydym yn 'ymgynghorai arbenigol' ai peidio.

Er mwyn deall y rhesymau dros gyflwyno ein hymatebion y tu hwnt i derfyn amser, rydym wedi adolygu sampl o 20% o ymatebion o'r fath ac yn adrodd ar y prif resymau.

Adran 3.0 Ein Hasesiad o Berfformiad

3.1 Cyd-destun

Yn yr adran hon, rydym yn asesu ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion hynny a nodwyd yn y Gorchmynion Rheoli Datblygu, fel yr esboniwyd yn gynharach yn Adran 1.0.

3.2 Trosolwg o berfformiad

Mae ein perfformiad cyffredinol ar gyfer y flwyddyn adrodd hon, sef 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018, wedi'i nodi yn Ffigwr 1.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom dderbyn cyfanswm o 6,556 o ymgynghoriadau rheoli datblygu. O'r rheini, roedd 357 yn ymgynghoriadau cyn ymgeisio, a derbyniwyd 6,199 o ymgynghoriadau gan awdurdodau penderfynu cyn iddynt roi caniatâd.

Gwnaethom ymateb i gyfanswm o 6,775 o ymgynghoriadau. Gwnaethom gyflwyno 6,547 o ymatebion o sylwedd o fewn y terfyn amser statudol neu derfyn amser arall y cytunwyd arno. Cyflwynwyd 228 o ymatebion ymgynghori y tu hwnt i'r terfynau amser statudol neu derfynau amser eraill y cytunwyd arnynt. Felly, darparwyd 97% o'n holl ymatebion i ymgynghoriadau o fewn terfynau amser statudol neu derfynau amser eraill y cytunwyd arnynt.

Nodwch fod y gwahaniaeth rhwng ymgynghoriadau a dderbyniwyd a'r ymatebion a gyflwynwyd yn adlewyrchu'n rhannol y gwaith sy'n mynd rhagddo lle mae'r terfynau amser a bennwyd yn disgyn o fewn y cyfnod adrodd nesaf.

3.3 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)


3.3.1 Trosolwg o berfformiad

Mae'r adran hon yn amlinellu ein perfformiad o ran darparu ymateb o fewn yr amserlenni a bennwyd ar gyfer yr holl geisiadau cynllunio (ar wahân i'r rhai sy'n cynnwys Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol). Mae'r rhesymau dros gyflwyno ymateb y tu hwnt i gyfnod statudol wedi cael eu grwpio o dan y pedwar prif gategori a gellir dod o hyd i ragor o esboniad ynglŷn â'r categorïau hyn o fewn Tabl A1 yn Atodiad 1.

Mae nifer yr ymatebion o sylwedd a anfonwyd o fewn yr amserlenni a bennwyd yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cymru) 2012 wedi'u nodi yn Ffigwr 2.

Derbyniwyd cyfanswm o 6,548 o ymgynghoriadau, a gwnaethom gyflwyno 6,767 o ymatebion o sylwedd. Ymatebwyd i 6,539 (97%) o'r ymatebion o fewn y cyfnod amser statudol neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno. Cyflwynwyd 228 o ymatebion i ymgynghoriadau y tu hwnt i'r terfynau amser hyn.

Ffigwr 1 Perfformiad Gwasanaeth Cyngtori ar Gynllunio Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru



3.3.2 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriad cyn ymgeisio

Mae gennym ddyletswydd i ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriad cyn ymgeisio ar gyfer datblygiad sylweddol o fewn 28 diwrnod neu gyfnod o amser arall y cytunir arno gyda'r ymgeisydd.

3.3.3 Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau cyn ymgeisio a dderbyniwyd


Gwnaethom dderbyn 352 o ymgynghoriadau cyn ymgeisio yn ystod y cyfnod adrodd.

3.3.4 Cyfanswm nifer yr ymatebion a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio

Gwnaethom gyflwyno cyfanswm o 348 o ymatebion o fewn cyfnod o 28 diwrnod neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno, sy'n cynrychioli 95% o gyfanswm yr ymatebion cyn ymgeisio a anfonwyd.

3.3.5 Amserlenni ar gyfer rhoi ymateb i ymgynghoriad cyn ymgeisio

Ffigwr 2 Pryd darparwyd yr ymateb



Nifer yr ymatebion o fewn 28 diwrnod

Gwnaethom ddarparu ymateb i 301 o ymgynghoriadau cyn ymgeisio (82%) o fewn 28 diwrnod.

Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn cyfnod amser estynedig y cytunwyd arno

Gwnaethom ymateb i 47 o ymatebion cyn ymgeisio (13%) o fewn cyfnod amser estynedig y cytunwyd arno.

3.3.6 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu hwnt i'r 28 diwrnod neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno

Cyflwynwyd 17 o'r ymatebion i ymgynghoriadau cyn ymgeisio (5%) y tu hwnt i'r 28 diwrnod neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno.

3.3.7 Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion y tu hwnt i gyfnod amser a bennwyd neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno

Tabl 1 Crynodeb o'r rhesymau

Rheswm dros ymateb y tu hwnt i gyfnodau amser a bennwyd	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Gwybodaeth annigonol	0	0
Cynnig datblygu cymhleth	2	67
Newidiadau busnes a chyfyngiadau o ran adnoddau	1	33
Cyfyngiadau technoleg gwybodaeth	0	0
Cyfanswm	3	100

Fel rhan o'n dadansoddiad (yn seiliedig ar sampl o 20%), rydym wedi adolygu tri ymateb o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i amserlenni a bennwyd a gwnaethom nodi'r rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn y terfyn amser. Ceir crynodeb o'r rhesymau hynny a gofnodwyd yn Nhabl 1. Ceir rhagor o fanylion ar y categorïau a nodwyd yn Nhabl A1, Atodiad 1.

3.4 Gofynion adrodd blynyddol ar gyfer ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol cyn rhoi caniatâd cynllunio

Mae'r adran hon yn amlinellu ein perfformiad o ran darparu ymateb i awdurdodau cynllunio lleol o fewn amserlenni a bennwyd ar gyfer ceisiadau cynllunio. Mae'n ddyletswydd i ni ddarparu ymateb o sylwedd i ymgynghoriad gan awdurdod cynllunio lleol o fewn 21 diwrnod neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno gyda'r awdurdod cynllunio lleol.

3.4.1 Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd


Rydym wedi derbyn cyfanswm o 6,196 o ymgynghoriadau ynghylch rheoli datblygu gan awdurdodau cynllunio lleol yn ystod y cyfnod adrodd.

3.4.2 Cyfanswm nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd

Gwnaethom gyflwyno cyfanswm o 6,191 o ymatebion o sylwedd o fewn cyfnod statudol o 21 diwrnod neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno, sy'n cynrychioli 97% o gyfanswm yr ymatebion a gyflwynwyd gennym ni.

3.4.3 Pryd cyflwynwyd yr ymateb o sylwedd i'r awdurdodau cynllunio lleol

Ffigwr 3 Pryd darparwyd yr ymateb



Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn 21 diwrnod

Gwnaethom gyflwyno 5,598 o ymatebion (88% o gyfanswm yr ymatebion) o fewn cyfnod statudol o 21 diwrnod.

Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd o fewn cyfnod amser estynedig y cytunwyd arno

Gwnaethom ymateb i 593 o ymgynghoriadau (9% o gyfanswm yr ymatebion) o fewn cyfnod amser estynedig y cytunwyd arno.

3.4.4 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu hwnt i'r cyfnod amser a bennwyd neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno

Cyflwynwyd 211 o'r ymatebion, sef 3% o gyfanswm yr ymatebion, y tu hwnt i'r cyfnod amser statudol neu'r cyfnod amser estynedig y cytunwyd arno.

3.4.5 Crynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion y tu hwnt i gyfnod amser a bennwyd neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno

Tabl 2 Crynodeb o'r rhesymau

Rheswm dros ymateb y tu hwnt i gyfnodau amser a bennwyd	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Gwybodaeth annigonol	7	17
Cynnig datblygu cymhleth	14	33
Newidiadau busnes a chyfyngiadau o ran adnoddau	19	45
Cyfyngiadau technoleg gwybodaeth	2	5
Cyfanswm	42	100

Fel rhan o'n dadansoddiad (yn seiliedig ar sampl o 20%), rydym wedi adolygu 42 o ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd y tu hwnt i'r amserlenni a bennwyd ac wedi nodi'r rhesymau dros beidio ag ymateb o fewn terfyn amser. Ceir crynodeb o'r rhesymau hynny a gofnodwyd o fewn Tabl 2. Ceir rhagor o fanylion am y categorïau a nodwyd o fewn Tabl A1, Atodiad 1.

3.5 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

Mae'r adran hon yn amlinellu ein perfformiad o ran darparu ymateb o fewn yr amserlenni a bennwyd ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

3.5.1 Gofynion adrodd cenedlaethol ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac ymgynghoriadau gan Weinidogion Cymru cyn rhoi caniatâd cynllunio

Mae'n ddyletswydd i ni gyflwyno ymateb o sylwedd i ymgynghoriad cyn ymgeisio ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn 42 diwrnod (gan ddechrau gyda'r diwrnod pan roddwyd yr hysbysiad gofynnol) neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno'n ysgrifenedig â'r ymgynghorydd.

Mae'n ofynnol i ni hefyd gyflwyno ymateb o sylwedd i ymgynghoriad gan Weinidogion Cymru o fewn 21 diwrnod neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno.

Ar gyfer y flwyddyn adrodd hon, nid ydym wedi cofnodi unrhyw ymgynghoriadau caniatâd eilaidd oherydd nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau ffurfiol.

3.5.2 Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd


Gwnaethom dderbyn cyfanswm o wyth o ymgynghoriadau a oedd yn ymwneud â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol: pum ymgynghoriad yn y cam cyn ymgeisio, a thri ymgynghoriad ar gyfer y cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol dilynol.

3.5.3 Cyfanswm nifer yr ymatebion a gyflwynwyd

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom ddarparu pum ymateb o sylwedd yn ystod y cam ymgynghori cyn ymgeisio a thri ymateb o sylwedd ar gyfer yr awdurdod sy'n penderfynu.

3.5.4 Pryd darparwyd yr ymateb i'r ymgynghorydd

Ffigwr 4 Pryd darparwyd yr ymateb



Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriad cyn ymgeisio o fewn cyfnod statudol o 42 diwrnod neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno

Gwnaethom ddarparu ymateb o sylwedd i bum ymgynghoriad cyn ymgeisio ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn y cyfnod statudol o 42 diwrnod.

Ffigwr 5 Pryd darparwyd yr ymateb

Nifer yr ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd i'r awdurdod sy'n penderfynu o fewn cyfnod statudol o 21 diwrnod neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno

Gwnaethom ddarparu ymateb o sylwedd i un ymgynghoriad cyn ymgeisio ar Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod. Gwnaethom ddarparu dau ymateb o sylwedd i'r awdurdod sy'n penderfynu o fewn cyfnod amser estynedig y cytunwyd arno.

3.5.5 Nifer yr ymatebion a gyflwynwyd y tu hwnt i'r cyfnod amser a bennwyd neu gyfnod o amser arall y cytunwyd arno. A chrynodeb o'r rhesymau dros gyflwyno ymatebion y tu hwnt i gyfnod amser

Nid yw'r dangosydd hwn yn briodol oherwydd cyflwynwyd ein hymatebion o sylwedd o fewn cyfnod amser statudol neu gyfnod amser estynedig y cytunwyd arno.

Adran 4.0 Myfyrdod

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymedig i wella ei wasanaeth cyngori ar gynllunio datblygu yn barhaus. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir, yn ddiamwys ac yn gyson er mwyn cynorthwyo datblygwyr ac awdurdodau sy'n penderfynu i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae safbwyntiau ein cwsmeriaid a'n partneriaid yn bwysig i ni wrth i ni weithio i wella ein gwasanaeth.

4.1 Arolwg cwsmeriaid

Fel y nodwyd yn ein [Hadroddiad Blynyddol ar gyfer Gweinidogion Cymru 2016/17](#), gwnaethom gynnal ein [harolwg](#) ein hun o awdurdodau cynllunio lleol er mwyn casglu eu safbwyntiau ynghylch y gwasanaeth cyngori ar gynllunio datblygu yr ydym yn ei gynnig. Amlinellwyd rhai o ganfyddiadau allweddol ein harolwg yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf i Weinidogion Cymru, a defnyddiwyd canlyniadau'r arolwg er mwyn llywio'r gwaith o wella ein gwasanaeth cyngor cynllunio.

Eleni rydym wedi bod yn ymgynghori ag awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr ynghylch eu safbwyntiau ar ein gwasanaeth. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd, a byddwn yn paratoi adroddiad maes o law, a bydd copi ar gael i chi.

Er mwyn gwella cysondeb ac eglurder ein cyngor, rydym wedi datblygu nodiadau cyfarwyddyd gweithredol mewnol newydd o ran sut yr ydym yn cyflawni'r broses o lunio cynllun datblygu, y broses ganiatâd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, a'r broses apelio.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau i ddatblygwyr o ran ein swyddogaeth mewn perthynas â [Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol](#) ac rydym yn annog datblygwyr i alinio eu ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol gyda'u ceisiadau am ganiatâd, a allai fod yn ofynnol hefyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rydym wedi datblygu canllawiau mewnol ar gyfer yr adegau pan fyddwn yn ymateb i gynlluniau a allai effeithio ar dirweddau dynodedig, a chynigion sy'n ymwneud â chyfleusterau rheoli gwastraff.

4.2 Prosiect Gwella ar y Cyd

Gwnaethom nodi hefyd yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf i Weinidogion Cymru fod 'Prosiect Gwella ar y Cyd' wedi cael ei sefydlu gyda'r holl awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru. Goruchwyliwyd hwn gennym ni a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol yng ngogledd Cymru i nodi meysydd ar gyfer ymgysylltu gwell rhyngom ni a'r awdurdodau hynny. Mae Blwch 1 isod yn cynnwys meysydd pwnc yr ydym yn eu datblygu ar hyn o bryd fel rhan o'r prosiect.

Blwch 1

Pwnc	Amcan	Cynnydd
Amodau delfrydol	Datblygu cyfres o amodau arfer gorau enghreifftiol sy'n cael ei gwneud ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol.	Dyddiad cwblhau disgwylidig: Haf 2018
Tirwedd	Rhoi cyngor ar dirwedd ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.	Hyfforddiant yn mynd rhagddo gydag awdurdodau cynllunio lleol a nodwyd.
Llythyrau enghreifftiol	Datblygu safon ar gyfer strwythuro ymatebion ymgynghoriad i ymgynghoriadau rheoli datblygu.	Cwblhawyd.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Datblygu paragraffau safonol ar gyfer strwythuro ymatebion ymgynghoriad i ymgynghoriadau rheoli datblygu, a diweddarau'r cyngor ar y wefan sy'n cadarnhau sut yr ydym yn gallu cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau drwy gydol y broses asesu.	Paragraffau enghreifftiol wedi'u cwblhau, a disgwylir i'r cyngor ar y wefan gael ei gwblhau erbyn Haf 2018.
Rhywogaethau a warchodir	Datblygu a lledaenu templed a argymhellir wrth lunio adroddiadau arolwg.	Bydd y templedi ar gael erbyn haf 2018.
Perygl llifogydd	Treialu gweithdrefn ymgynghori ar gyfer rhai cynlluniau arfaethedig ym mharth llifogydd C2.	Mae cynllun peilot ar waith tan fis Medi 2018, gydag adolygiad yng nghanol y cyfnod yn ystod mis Gorffennaf 2018.

Rydym yn parhau â'n gwaith ar y cyd i ddatblygu a chyflawni rhagor o welliannau ar gyfer ein cwsmeriaid ar y cyd. Mae gwaith ar y cyd ar y prosiect eisoes wedi helpu i wella cydberthnasau gwaith rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol. Mae rhai o'r gwelliannau mwyaf defnyddiol yn cynnwys:

- Symleiddio llythyrau cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru
- Hyfforddiant a chymorth ar dirweddau ar gyfer swyddogion cynllunio
- Lleihau'r maint o ddyblygu a chyngor anghyson gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chynghorwyr ecolegol awdurdodau lleol
- Cynllun peilot i leihau'r maint o waith aflwyddiannus ar Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer datblygiadau mewn parthau llifogydd

4.3 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10)

Gwnaeth ein hymateb i'r ymgynghoriad ar Argraffiad 10 Polisi Cynllunio Cymru groesawu a chefnogi'r bwriad i adnewyddu Polisi Cynllunio Cymru i adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ynghyd â'r cyfeiriad cyffredinol ynghylch swyddogaeth y system gynllunio o ran darparu datblygiad cynaliadwy o adnoddau naturiol fel y'i cyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Rydym yn cydnabod y bydd cyflawniad effeithiol gan y system gynllunio o'r ffyrdd newydd o weithio sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru yn cymryd amser wrth i unigolion a chyrrff o fewn y system gynllunio ddatblygu dealltwriaeth well o ran sut i gyflawni'r gofynion newydd.

Bydd yn bwysig, yn enwedig yn ystod y 'cyfnod pontio' rhwng diwedd y cyfnod ymgynghori a chyflwyno fersiwn derfynol Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10, i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru weithio'n agos ar y cyd er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o ran cymhwyso'r ffyrdd newydd o weithio ar y cyd gydag unrhyw ganllawiau cefnogol a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer swyddogion ac aelodau etholedig.

Atodiad 1 Categoriâu o'r rhesymau dros ymateb y tu hwnt i amserlenni a bennwyd

Tabl A1 Categoriâu o'r rhesymau

Pan mae ymateb o sylwedd wedi cael ei roi y tu hwnt i gyfnod amser statudol neu gyfnod amser estynedig y cytunwyd arno neu pan nad yw ymateb wedi cael ei ddarparu, yna mae ein rhesymau dros hyn wedi cael eu nodi yn y categorïau hynny a ddisgrifir yn Nhabl A1 isod.

Categori	Esboniad
Gwybodaeth annigonol	Nid yw'r ymgynghorydd wedi darparu digon o wybodaeth i gefnogi ymgynghoriad ac er mwyn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ymateb yn llawn.
Cynnig datblygu cymhleth	Arfarniad manwl o gynnig datblygu cymhleth sylweddol lle mae risgiau amgylcheddol sylweddol y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae rheolwyr achos cynllunio datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu cefnogi gan eu timau arbenigol. Gallai hyn gynnwys trafodaeth a/neu ymweliad â'r safle gyda'r ymgynghorydd (awdurdod cynllunio lleol neu ymgeisydd). Mae gwybodaeth yn ofynnol cyn ein hymateb.
Newidiadau busnes a chyfyngiadau o ran adnoddau	Mae ymgynghoriadau yn cael eu rheoli gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg, lle mae'r llwyth gwaith yn cael ei flaenoriaethu er mwyn sicrhau bod ymdrechion Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio ar yr ymgynghoriadau hynny sy'n debygol o beri'r pryder amgylcheddol niweidiol mwyaf neu'r fantais fwyaf. Nid ydym yn symud ymlaen ag ymgynghoriadau o fewn amserlenni lle mae newidiadau i fusnes Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys absenoldeb gweithwyr a diffyg argaeledd timau arbenigol i ddarparu arbenigedd, oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau a blaenoriaethau.
Cyfyngiadau technoleg gwybodaeth	Anawsterau o ran gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth pan nad yw meddalwedd yn ddigonol neu nad yw'n gweithio'n effeithiol, neu pan fydd y wybodaeth a dderbynnir yn cael ei phrosesu neu ei chofnodi'n anghywir.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru.